# Talu costau tai yng Nghymru

## Trosolwg

Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at ganfyddiadau arolwg[1] a gomisiynwyd ar y cyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru yr haf diwethaf i bennu i ba raddau y mae pobl Cymru yn llwyddo i dalu costau tai yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Mae hefyd yn archwilio defnydd pobl o fenthyciadau diwrnod cyflog ledled Cymru i helpu gyda chostau byw.

## Prif Ganfyddiadau

- Mae bron hanner (49 y cant) oedolion Cymru sy'n talu rhent neu forgais yn ei chael hi'n anodd o leiaf rywfaint o'r amser i ddal i fyny â'r taliadau neu'n methu â'u talu. Mae un o bob wyth (12 y cant) yn ei chael hi'n anodd yn gyson.

- Nid oes digon o gynhyrchion cynilo neu ddiogelwch yswiriant gan 28 y cant o oedolion sy'n gweithio i'w galluogi i barhau i wneud taliadau tai am fwy nag **1 mis** pe baent yn colli eu ffynhonnell incwm. Ni fyddai un o bob chwech (17 y cant) yn gallu fforddio talu eu rhent neu forgais o gwbl.

- Mae 6 y cant o oedolion Cymru naill ai wedi ystyried cael neu wedi cael benthyciad diwrnod cyflog i'w helpu i dalu costau byw.

- Mae un o bob chwech (17 y cant) o bobl 18-24 oed yng Nghymru wedi o leiaf ystyried defnyddio benthyciad diwrnod cyflog, gydag ychydig dros un o bob deg o bobl ifanc (11 y cant) wedi cael benthyciad diwrnod cyflog yn y flwyddyn ddiwethaf.

- Mae dau o bob pump o oedolion Cymru (40 y cant) yn teimlo'n llai diogel neu'n llawer llai diogel ynglŷn â'u ffynhonnell incwm bersonol o gymharu â'r un adeg y flwyddyn flaenorol (h.y. Gorffennaf 2012).

---

[1] Cynhaliwyd yr arolwg gan YouGov PLC. Mae'r manylion llawn i'w gweld ar ddiwedd y Papur Briffio.

# Cefndir

Mae aelwydydd ym mhob rhan o Gymru yn dod dan bwysau cynyddol i reoli eu trefniadau ariannol, yn cynnwys cynnal gwariant ar gostau byw hanfodol fel tai. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol a phryderon ynglŷn â'r dyfodol, yn cynnwys pryder am sicrwydd gwaith, newidiadau sydd ar y gweill i fudd-daliadau lles, a chynnydd yn y costau byw cyffredinol, yn peri anawsterau i lawer o bobl.

Mae canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos fod 52 y cant o bobl naill ai'n ei chael hi'n anodd dal i fyny â thalu biliau ac ymrwymiadau ariannol neu'n cael anawsterau ariannol[2].


# Talu rhent neu forgais

Mae pobl ar draws Cymru yn byw mewn amryw o sefyllfaoedd o ran tai. Mae rhai'n gallu bod yn berchen ar eu heiddo (gyda neu heb forgais), ac eraill yn dewis rhentu, neu'n rhentu am mai dyna yw eu hunig ddewis. Mae tua thraean o'r ymatebwyr a gyfrannodd at ein harolwg (32 y cant) yn berchen ar eu heiddo'n llwyr, mae gan draean arall (34 y cant) forgais ar eu heiddo ar hyn o bryd, ac mae dros un o bob pump (22 y cant) yn rhentu gan landlord cymdeithasol neu breifat.

Beth bynnag yw eu sefyllfa, cael cartref cynnes, diogel yw'r peth pwysicaf oll ac mae'n cyfrannu'n allweddol at iechyd a lles cyffredinol pobl. Felly, i'r bobl sy'n talu morgais neu rent, mae gallu dal i fyny â'r taliadau hynny'n hollbwysig.

O'r aelwydydd sy'n talu taliadau rhent neu forgais, mae ffigur 1.1 yn dangos fod 49 y cant yn gallu dal i fyny â'u taliadau rhent neu forgais heb unrhyw anhawster. Fodd bynnag, mae'r un gyfran (49 y cant) yn cael anhawster i wneud hynny.

**Ffigur 1.1: Gallu aelwydydd i ddal i fyny â thaliadau tai**





Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth Cymru/Shelter Cymru Sylfaen: 567

---

[2] https: //statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/National-Survey-for-Wales

Mae peth amrywio rhanbarthol o ran y rhai sy'n ei chael hi'n anodd o leiaf rywfaint o'r amser neu sydd wedi methu â thalu taliadau gyda'r nifer uchaf o achosion sy'n destun pryder yn y De-ddwyrain, ar 64 y cant – gweler ffigur 1.2. Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn arbennig y ceir rhai o'r costau tai uchaf yng Nghymru, felly nid yw'r canfyddiad hwn yn peri syndod[3].

**Ffigur 1.2: Cyfran yr aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd dal i fyny/yn methu â thalu taliadau tai yn ôl rhanbarth**




Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth Cymru/Shelter Cymru Sylfaen: 567

Mae pobl ifanc a phobl yn y bandiau canol oed (45-54 oed) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ei chael hi'n anodd neu'n methu â thalu eu costau tai (52 y cant a 59 y cant), fel y mae pobl sydd â phlant ar yr aelwyd (54 y cant).

Mae cyfrannau uwch o bobl sy'n talu rhent (i landlord cymdeithasol neu breifat) hefyd yn cael anhawster i wneud taliadau tai o gymharu â phobl sy'n talu morgais.

Mae maint y sampl yn rhy fach i allu cynnal dadansoddiad ar wahân o denantiaid tai cymdeithasol ond mae newidiadau i hawliau budd-dal tai i oedolion o oedran gweithio o fis Ebrill 2013, yn fwyaf penodol y rheolau tanfeddiannaeth (a elwir hefyd yn ddileu'r cymhorthdal ystafell sbâr neu'r 'dreth ystafell wely'), yn golygu bod nifer o denantiaid cymdeithasol yn cael trafferth gynyddol i dalu eu rhent. Mae tystiolaeth arall yn dangos bod y cyfyngiadau hyn yn cael effaith anghymesur yng Nghymru[4]. Mae ychydig dros un o bob pump o holl denantiaid tai cymdeithasol Cymru (21 y cant) wedi cael eu heffeithio gan y rheolau hyn o gymharu â dim ond 16 y cant o denantiaid tai cymdeithasol ledled Prydain. Mae'r ffigurau'n dangos bod 33,876 o bobl yn wynebu gostyngiad yn eu budd-dal tai oherwydd y newidiadau. Mae hyn yn 6.5 y cant o bawb a effeithiwyd gan y mesur ledled Prydain er mai 5 y cant yn unig o boblogaeth Prydain sy'n byw yng Nghymru.

Mae ein ffigurau'n tynnu sylw at y frwydr ddyddiol y mae llawer o bobl yng Nghymru yn ei hwynebu i gadw to uwch eu pennau. Mae'n debygol fod rhesymau lluosog ac amrywiol am hyn. I lawer, canlyniad pwysau economaidd cyffredinol neu fyw ar incwm isel yw hyn, ond i eraill, gallai ddeillio o sgiliau llythrennedd ariannol gwael neu o orfod ymdopi â dyled na ellir ei rheoli.


---

[3] http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/welfare-reform/rentofficers/publications/lha13/?skip=1&lang=cy
[4] http://pigion.wordpress.com/

Pan ofynnwyd i bobl faint yn fwy neu'n llai diogel y teimlant ynglŷn â'u ffynhonnell incwm personol o gymharu â'r un adeg y flwyddyn flaenorol (h.y. Gorffennaf 2012), dywedodd 40 y cant eu bod yn teimlo'n llai diogel neu'n llawer llai diogel bellach.

Nid yw'n syndod fod mwy o bobl nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd yn teimlo'n fwy ansicr ynglŷn â'u ffynhonnell incwm personol na phobl sy'n gweithio. Dim ond ychwanegu at y teimlad hwn o ansicrwydd ariannol fydd y newidiadau yn sgîl diwygio lles sydd ar y gweill ac i ddod, yn cynnwys newidiadau i fudd-dal tai ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol, diwygio budd-daliadau oedran gweithio a chymorth y dreth gyngor.

**Ffigur 1.3: Y gallu i ddal i fyny â thaliadau tai yn ôl statws gwaith**




Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth Cymru/Shelter Cymru Sylfaen: 449

Nid yw cyfraddau pobl sydd wedi ymddeol wedi'u cynnwys yn ffigur 1.3. Dangosai'r ffigurau hyn fod 39 y cant o bobl sydd wedi ymddeol yn ei chael hi'n anodd gwneud taliadau tai, gyda 26 y cant yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd o bryd i'w gilydd a 13 y cant yn dweud eu bod yn dal i fyny, ond yn ei chael hi'n anodd yn gyson.


# Cynilion a gallu i ymdopi ag argyfyngau ariannol annisgwyl

Gall cael rhwyd ddiogelwch ariannol, megis cynnyrch cynilo neu ddiogelwch yswiriant, helpu pobl i ymdopi â chostau nad ydynt wedi'u rhagweld neu ostyngiad yn eu hincwm. Yn ystod adegau economaidd anodd o'r fath, gall fod yn arbennig o anodd i bobl gynilo neu fforddio yswiriant am rywbeth a allai ddigwydd neu beidio.

Fel rhan o'n hymchwil, gofynnwyd i bob person sy'n gweithio ar hyn o bryd am ba hyd, os o gwbl, y gallent fforddio talu rhent neu forgais pe baent yn colli eu gwaith o fewn y mis nesaf.

Mae'r canfyddiadau'n peri pryder mawr. Ni fyddai dros eu chwarter (28 y cant) yn gallu fforddio taliadau ar ôl dim ond un mis, ac nid fyddai un o bob chwech (17 y cant) yn gallu fforddio taliadau o gwbl. Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi canfyddiadau adroddiad diweddar gan Legal and General[5] a welodd nad oes unrhyw gynilion gan 37 y cant o'r holl aelwydydd yn y DU. Hefyd, dangosodd yr adroddiad mai pobl yng Nghymru sydd â'r lefel isaf o gynilion ar draws y rhanbarthau gyda chanolrif o ddim ond £520, ac ar gyfartaledd, maent o fewn cyn lleied â 15 diwrnod i ffwrdd o fyw mewn tlodi.

**Ffigur 2: Hyd yr amser y gellir talu costau tai o gynilion**




Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth Cymru /Shelter Cymru  Sylfaen: 388

Ni fyddai cyfrannau uwch o bobl ifanc, rhai rhwng 45-54 a phobl ar raddfeydd cymdeithasol C2DE (grwpiau incwm is yn gyffredinol) yn gallu cynnal taliadau tai am fwy na mis (31 y cant, 28 y cant a 25 y cant). Hefyd, pobl sy'n rhentu'n breifat fyddai fwyaf tebygol o'i chael hi'n anodd ar ôl mis (29 y cant)[6].

---

[5] http://www.legalandgeneral.com/library/protection/sales-aid/W13612.pdf

[6] Oherwydd maint bach y sampl ar gyfer y cwestiwn hwn, ni allwn ddadansoddi'r canlyniadau ar gyfer tenantiaid cymdeithasol.

# Benthyciadau Diwrnod Cyflog

Mae'n bosibl fod anawsterau i dalu costau rhent neu forgais a diffyg cynhyrchion cynilo yn arwain at gynnydd yn y defnydd o gredyd. Bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â bron 136,000[7] o achosion yn ymwneud â dyled yn y flwyddyn 2012/2013.

Un ffurf ar gredyd sy'n dod yn gynyddol boblogaidd yw benthyciadau diwrnod cyflog. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gwelodd y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth gynnydd ddeg gwaith drosodd yn y gyfran o gleientiaid â dyledion lluosog a oedd yn cynnwys dyled benthyciad diwrnod cyflog. Gwelodd Canolfannau yng Nghymru gynnydd bum gwaith drosodd yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2013 o gymharu â'r un chwarter yn 2012. Mae tystiolaeth Cyngor ar Bopeth[8] yn amlygu bod llawer o ddarparwyr benthyciadau diwrnod cyflog yn methu â thrin cwsmeriaid yn deg a bod arferion benthyca anghyfrifol yn gyffredin.

Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn hefyd yn dynodi dibyniaeth gynyddol ar gredyd cost uchel. Er nad yw'r ffigurau cyffredinol yn uchel, mater o bryder yw nodi bod 6 y cant o oedolion Cymru naill ai wedi cael benthyciad diwrnod cyflog neu wedi ystyried gwneud hynny i'w helpu i dalu costau byw.

Tabl 1: Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis y datganiad sy'n FWYAF perthnasol iddynt hwy:

| | |
|---|---|
| Rwyf i wedi cael mwy nag un benthyciad diwrnod cyflog yn y flwyddyn ddiwethaf i helpu i dalu costau byw | 2% |
| Rwyf i wedi cael un benthyciad diwrnod cyflog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i helpu i dalu costau byw | 2% |
| Dydw i ddim wedi cael benthyciad diwrnod cyflog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i helpu i dalu costau byw, ond rwyf wedi ystyried gwneud hynny yn y flwyddyn ddiwethaf | 1% |
| Dydw i ddim wedi ystyried cael benthyciad diwrnod cyflog i helpu i dalu costau byw yn y flwyddyn ddiwethaf, ond rwyf i wedi ystyried gwneud cyn hynny | 1% |
| Dydw i erioed wedi ystyried cael benthyciad diwrnod cyflog i helpu i dalu costau byw | 92% |
| Ddim yn gwybod | 1% |

Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth Cymru/Shelter Cymru Sylfaen: 1,009

Hefyd, mae cryn dipyn o amrywio rhwng grwpiau oedran ac ar draws mathau o ddeiliadaeth tai. Mae un o bob chwech (17 y cant) o bobl rhwng 18-24 oed yng Nghymru wedi ystyried defnyddio benthyciad diwrnod cyflog o leiaf, gydag un o bob deg person ifanc (11 y cant) wedi cael benthyciad diwrnod cyflog yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o bobl 35-54 oed (7 y cant) hefyd wedi troi at ddarparwr benthyciadau diwrnod cyflog yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg, o gymharu â neb yn y grŵp oedran 55+.

[7] Adolygiad Blynyddol Cyngor ar Bopeth Cymru 2012-13, http://www.citizensadvice.org.uk/index/aboutus/publications/annualreports/citizens_advice_cymru_annual_review.htm,actual figure135,988

[8] http://www.citizensadvice.org.uk/index/pressoffice/press_index/press_20131105.htm

Hefyd, mae mwy o bobl â phlant ar yr aelwyd a rhai sy'n byw mewn llety rhent (cymdeithasol a phreifat) wedi defnyddio'r ffurf hon ar gredyd yn y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â phobl heb blant ar yr aelwyd neu berchen-feddianwyr (gyda neu heb forgais).

## Casgliad

Mae sicrhau bod pobl Cymru yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn hanfodol. Mae hyn yn allweddol o ran iechyd a lles cyffredinol ond hefyd i'w galluogi i gyfranogi'n llawn yn y gymdeithas ac at weithgareddau cymunedol ehangach yn cynnwys addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol.

Mae ein hymchwil yn tynnu sylw at yr ymdrech ddyddiol y mae llawer o aelwydydd Cymru yn ei hwynebu er mwyn dal i fyny â thaliadau tai a'r pryderon sydd ganddynt ynglŷn â'u sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol, yn enwedig os ydynt yn dioddef newidiadau i'w hincwm, er enghraifft drwy golli gwaith neu ostyngiadau yn eu budd-daliadau. Mae'r ffaith nad oes rhwyd ddiogelwch ariannol o unrhyw fath, yn cynnwys cynilion, gan dros chwarter yr aelwydydd sy'n gweithio ar gyfer parhau i wneud taliadau tai pe baent yn colli eu prif ffynhonnell incwm yn destun pryder mawr. Yr un mor bryderus yw'r ddibyniaeth gynyddol ymddangosiadol ar gredyd cost uchel i helpu i dalu costau byw, yn enwedig ymhlith yr ifanc.

Mewn adeg mor ansicr, mae'n amlwg o'r canlyniadau ei bod hi'n bwysicach nag erioed fod pobl sy'n wynebu anawsterau ariannol a/neu bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau hanfodol yn gallu dod o hyd i'r cymorth a'r cyngor cywir i atal eu sefyllfa rhag gwaethygu y tu hwnt i reolaeth a cholli eu cartref o bosibl.

Gan hynny felly, byddem yn gwneud yr argymhellion canlynol i'w rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru.

## Argymhellion

- Wrth adolygu cymorth yn y dyfodol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, dylid sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb yn parhau'n ganolog i unrhyw gynllun(iau) arfaethedig a chyfeirio cymorth tuag at y rhai sydd fwyaf o'i angen yn hytrach na gwarchod grwpiau arbennig. Byddem yn cefnogi cynllun cenedlaethol sengl i sicrhau tegwch a chysondeb o ran y dull o weithredu ledled Cymru;
- Rydym yn annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i ddiystyru budd-daliadau anabledd megis y Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliadau Annibyniaeth  Bersonol wrth asesu incwm hawlydd yn ystod y broses ymgeisio am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn (DHP);
- Rydym yn croesawu'r dull holistaidd newydd a argymhellir ar gyfer dyrannu DHP yn y dyfodol yng Nghymru a fyddai'n edrych ar amgylchiadau cyffredinol aelwydydd er mwyn eu cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill lle maent ar gael. O wneud hyn, rhaid sicrhau bod gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i unrhyw becyn cymorth ac ni ddylai amharodrwydd i dderbyn cymorth pellach beryglu eu cymhwysedd i gael DHP;
- Rydym yn annog awdurdodau lleol Cymru i roi camau ar waith i atal benthyciadau diwrnod cyflog rhag cael eu hysbysebu ar safleoedd y maent yn gyfrifol amdanynt a chefnogi galwad gyfredol Cyngor ar Bopeth ar yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i gyfyngu ar hysbysebu cyfredol gan ddarparwyr benthyciadau diwrnod cyflog;

- Yng ngoleuni'r galw cynyddol am wasanaethau cyngor, oherwydd y sefyllfa economaidd gyfredol a newidiadau i'r system fudd-daliadau, rydym yn croesawu'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi hyd yma i helpu i leddfu'r diffyg yn y cyllid yn sgîl toriadau i gyllidebau llywodraeth leol a cholli Cymorth Cyfreithiol mewn sawl maes cyfraith lles cymdeithasol. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill ar ddatblygu argymhellion yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori i sicrhau bod aelwydydd ledled Cymru yn gallu parhau i ddod o hyd i gyngor di-dâl, amserol ac annibynnol ar ddyled a materion tai yn ogystal â rhaglenni uchafu incwm.

Cynhaliwyd yr arolwg gan YouGov. Oni nodir yn wahanol, daw'r holl ffigurau gan YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1009 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 16 a 18 Gorffennaf 2013. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ac maent yn gynrychiadol o holl oedolion Cymru (18+ oed).